# Dod i adnabod eich gliniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith

**Gall gliniadur neu gyfrifiadur fod yn ffordd wych i chi gael mynediad i’r byd ar-lein a dysgu sgiliau newydd: naill ai i gysylltu ag anwyliaid, siopa a bancio ar-lein, dod o hyd i adloniant neu arbed arian, mae’r dyfeisiau hyn yma i’ch helpu.**

**Ond gall deimlo’n llethol ceisio dysgu sut i ddefnyddio dyfais newydd.**

**Bydd y canllaw hwn yn dangos i chi sut i wneud i’ch dyfais newydd weithio i chi, a magu eich hyder wrth ei defnyddio.**

* Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

## Beth fyddwch chi’n ei ddysgu?

1. Deall hanfodion eich dyfais
2. Gwneud i’r ddyfais weithio i chi
3. Swyddogaethau allweddol

### Creu manylion mewngofnodi

Wrth osod eich gliniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith am y tro cyntaf, bydd angen i chi greu enw defnyddiwr a chyfrinair.

Gellir creu enw defnyddiwr syml, er enghraifft enwcyntaf.ailenw.

Wrth greu cyfrinair, gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis rhywbeth sy’n hawdd ei gofio, ond sy’n anodd i bobl eraill ei ddyfalu. Ceisiwch osgoi ysgrifennu’r cyfrinair. Bydd cyfrinair cryf yn golygu na all unrhyw un arall gael mynediad i’ch cyfrifiadur.

### Symud o gwmpas – y llygoden neu’r pad cyffwrdd

Mae’r llygoden neu’r pad cyffwrdd yn eich galluogi i symud o gwmpas eich sgrin arddangos, pwyntio, dethol, sgrolio ac agor a chau rhaglenni.





Pan fyddwch wedi mewngofnodi i’ch dyfais, fe welwch gyrchwr [cursor symbol] a fydd yn eich galluogi i weld y rhan o’r dudalen rydych chi’n gweithio arni.

I symud y cyrchwr o amgylch y sgrin, bydd angen i chi ddefnyddio’r llygoden (os ydych yn defnyddio cyfrifiadur bwrdd gwaith) neu’r pad cyffwrdd (y sgwâr du sy’n rhan o’ch gliniadur).

Mae eich llygoden hefyd yn darparu’r opsiwn i sgrolio (defnyddio’r olwyn yng nghanol y ddyfais), chwith-glicio i ddethol, clicio a llusgo’r llygoden i’r chwith neu’r dde i amlygu gair a de-glicio i gael mwy o wybodaeth ac i agor swyddogaethau ychwanegol.




Os ydych yn defnyddio pad cyffwrdd, gallwch gyflawni’r un swyddogaethau drwy wthio i lawr ar ochr chwith neu dde y pad.

# Dod i adnabod eich gliniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith parhad

Os ydych yn cael anhawster gyda swyddogaeth pad cyffwrdd eich gliniadur, gallwch brynu llygoden i'w chysylltu i'ch dyfais.

### Cysylltu dyfeisiau eraill i'ch peiriant

Bydd gan eich dyfais gyfres o byrth (tyllau) wedi'u hymgorffori yn ochr y gliniadur neu gas eich cyfrifiadur bwrdd gwaith (yr uned siâp tŵr sy'n cysylltu i'r monitor).



Y porth pwysicaf yw'r porth USB ⭠. Mae hyn yn eich galluogi i gysylltu dyfeisiau eraill, er enghraifft cof bach a allai gynnwys ffeiliau wedi'u cadw arno, fel ffotograffau.

## Cynyddu maint y sgrin a thestun

### Gwneud y sgrin yn fwy

Mae chwyddo'r sgrin yn gweithredu fel chwyddwydr electronig ar gyfer eich cyfrifiadur neu liniadur, gan eich galluogi i chwyddo i mewn ar y sgrin gyfan neu rannau ohoni. Mae'n ddefnyddiol iawn os oes gan eich dysgwr nam ar eu golwg.

I chwyddo eich sgrin, pwyswch y botwm ctrl ctrl a symud olwyn ganol y llygoden ymlaen. I chwyddo'n ôl allan, pwyswch y botwm ctrl a symud olwyn ganol y llygoden am yn ôl.

Os ydych yn defnyddio pad cyffwrdd, pwyswch y botwm ctrl a symud dau fys am i fyny ar y pad cyffwrdd. I chwyddo'n ôl allan, pwyswch y botwm ctrl a symud dau fys am i lawr ar y pad cyffwrdd.

Mae hefyd yn bosibl gwneud yr eiconau ar eich sgrin yn fwy, drwy dde-glicio ar eich bwrdd gwaith, dewis 'gweld' a chlicio ar 'eiconau mawr'.

### Gwneud eich testun yn fwy

Mae maint testun yn aml yn fater o ddewis personol. Mae rhai defnyddwyr yn teimlo'n hyderus gyda thestun llai, sy'n galluogi i fwy ffitio ar y sgrin, ond mae angen testun llawer mwy ar eraill.

Os ydych eisiau cynyddu maint y testun ar y sgrin, dilynwch y camau syml isod.

1. Dechrau
2. Gosodiadau
3. System
4. Arddangos
5. Dewis y gwymplen i newid maint y ffont

### Agor rhaglenni

Bydd gan liniadur neu gyfrifiadur pen bwrdd eich dysgwr lawer o raglenni gwych sydd eisoes wedi'u rhaglennu yn eu dyfais.

I gael mynediad at y rhaglenni hyn, bydd angen iddyn nhw glicio ar y botwm dechrau yn y gornel isaf ar y chwith ar eu dyfais.

Yna, byddant yn cael rhestr o'r holl raglenni sydd wedi'u gosod ar eu cyfrifiadur.

I agor rhaglen, chwith-gliciwch ar eicon y rhaglen a bydd yn lansio tudalen newydd ar y ddyfais.

### Cadw ffeiliau a'u storio

Mae'n bwysig eich bod yn cadw unrhyw ffeiliau neu ddogfennau fel nad ydych yn eu colli.
I wneud hyn, bydd angen i chi gwblhau'r camau syml canlynol.

1. Clicio 'Ffeil' ym mar uchaf y rhaglen
2. Cadw
3. Y Cyfrifiadur Hwn
4. Dogfennau
5. Enwi'r ffeil
6. Clicio cadw







Dylech bob amser greu enw ffeil sy'n berthnasol i'r gwaith rydych chi'n ei greu, i sicrhau eich bod yn cofio am beth mae'r ffeil yn sôn. Er enghraifft - Rhestr Siopa neu Lythyrau

BT Group

In partnership with AbilityNet

# Dod i adnabod eich gliniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith parhad

### Creu ffolderi

Os oes gennych lawer o ffeiliau ar yr un pwnc efallai y byddwch eisiau eu storio i gyd mewn un lle. I wneud hyn bydd angen i chi greu ffolder.

1. Agorwch chwilotwr ffeiliau eich cyfrifiadur
2. Ar ôl ei agor, cliciwch ar y ffolder dogfennau yn y chwilotwr
3. Cliciwch ar yr eicon ffolder newydd, sydd fel arfer ar ochr chwith uchaf y ffenestr . Fel arall, gallwch de-glicio a dewis 'Newydd' ac yna 'Ffolder'
4. Cliciwch dwywaith ar yr ysgrifen o dan yr eicon i ail-enwi'r ffolder

Yna bydd ffolder yn cael ei greu i chi gadw cymaint o ffeiliau tebyg ag y dymunwch, pryd bynnag y byddwch yn eu creu.

I gadw yn y ffolder hwn, bydd angen i chi ddilyn y camau isod.

1. Ffeil
2. Cadw
3. Y Cyfrifiadur Hwn
4. Dogfennau
5. Clicio ar ffolder newydd
6. Cadw

### Cau i lawr yn ddiogel

I gadw eich dyfais yn iach, mae'n bwysig ei chau i lawr yn briodol bob tro y byddwch yn ei defnyddio.

Dylid gwneud hyn bob amser trwy ddilyn y camau isod a byth trwy ddiffodd y prif gyflenwad neu wasgu'r botwm pŵer.

Grym

I'w gwanhau

Noder: gwnewch yn siŵr bod pob rhaglen wedi cau a bod pob dogfen wedi'u cadw cyn i chi gau eich dyfais i lawr.

O bryd i'w gilydd, byddwch yn derbyn neges naid yn gofyn i chi lawrlwytho diweddariad meddalwedd. Dylech wneud hyn mor rheolaidd â phosibl i sicrhau bod eich dyfais yn gweithio ar ei gorau. Gallai hyn gymryd ychydig amser i gwblhau, ac mae'n bosibl y bydd eich dyfais yn ail-ddechrau nifer o weithiau cyn i'r diweddariad gwblhau.

### Modd cysgu

Mae modd cysgu yn opsiwn ychwanegol sy'n eich galluogi i gau eich dyfais i lawr dros dro, ond bydd y rhaglenni rydych yn gweithio arnyn nhw'n parhau i fod ar agor.

Mae modd cysgu yn wych ar gyfer pan fyddwch yn gadael eich dyfais am ychydig – er enghraifft egwyl coffi, ond ni ddylid defnyddio hyn fel ffordd o gau eich cyfrifiadur personol neu liniadur i lawr. Mae gliniaduron a chyfrifiaduron personol yn aml yn mynd i'r modd cysgu pan fydd y caead ar gau neu os byddant yn cael eu gadael am gyfnod o amser. Gallwch osod faint o amser sy'n mynd heibio cyn i'w dyfais fynd i'r modd cysgu drwy fynd i Gosodiadau – System – Pŵer a Cysgu.

### Datrys Problemau

Weithiau mae ein cyfrifiaduron yr un mor anwadal â phobl. Os ydych yn cael anhawster gyda rhaglen ac nad yw'n ymateb, peidiwch â phoeni! Yn syml, rhowch gynnig ar ei gau a'i ail-agor eto. Efallai y bydd angen i chi aros rhywfaint i hyn weithio.

Os byddwch yn parhau i gael problemau ar ôl gwneud hyn, beth am ail-ddechrau'r cyfrifiadur neu ei droi i ffwrdd ac ymlaen eto.

## Dolenni i ddysgu pellach

Mae rhagor o wybodaeth am addasiadau defnyddiol eraill gallwch chi eu gwneud i'ch dyfais ar gael yma: mcmw.abilitynet.org.uk. Gallwch chi glicio'r ddolen hon neu ei deipio yn eich porwr gwe.

Dylech chi wneud yn siŵr bod gennych chi ryw fath o feddalwedd gwrth-feirysau wedi'i gosod ar eich dyfais. Holwch eich cynorthwyydd os nad ydych chi'n siŵr.